



info@ceredrotian.com

01974 821511

Rhifyn 14

Croeso!

O am fis i gysylltiadau rasio o Geredigion! Yn gyntaf, fe enillwyd pop un o rasys ar noson Cwpan Cymru yn Nhairgwaith gan gysylltiadau o Geredigion. Ac yna Ceredigion yn cael 2 geffyl Meadowbranch Josh a Fool Around drwyddo i ffeinal y Crochan Aur, a Fool Around yn cipio'r ffeinal. Yn rhifyn mis yma mi fyddwn yn dal i fyny gyda sêr y storiâu llwyddiant ac edrych ymlaen at gyfarfod blaenllaw yn Wolverhampton ym mis Awst. Datblygiad cyffrous a cham enfawr i'r cyfeiriad cywir i rasio harnais, noswaith i'r gymdeithas weithio gyda'i gilydd ers lles y gamp.

Beth sydd wedi bod yn digwydd?

Mae Ceredrotian wedi sicrhau arddangosfa yng nghanolfan Twristiaeth a Gwybodaeth Borth. Mae'r ceffyl a'r sulci wedi cael lle blaenllaw i ddenu sylw holl ymwelwyr Borth. Mae'r ceffyl wedi bod yn atyniad mawr ac yn gyfle i gyflwyno rasio harnais i'r ymwelwyr - mae hefyd yn cysylltu yn dwt i hysbysu'r drafnidiaeth Bws fydd ar gael o Ynyslas, Borth a Clarach i rasys Tanycastell ar Awst 4ydd.

Mi rydym hefyd wedi bod yn creu cysylltiad gyda'r beicwyr a cherddwyr yn yr ardal. Eleni, am y tro cyntaf mi fyddwn yn cynnig lle i feicwyr adael eu beiciau yn ystod y rasys. Rydym yn ymwybodol fod yna nifer o lwybrau beicio arth ymyl ein traciau, felly mae'n gyfle gwych i'w gwahodd i mewn i fwynhau'r rasys. Mwy o wybodaeth am y llwybrau beicio www.discoverceredigion.co.uk

Clwb Rasio Harnais Tanycastell

Mi fydd CRH Tanycastell yn cynnal eu cyfarfod blynyddol ar ddydd Sul Awst 4ydd ar drac Tanycastell, Rhydyfelin, Aberystwyth SY23 4PY. Ras gyntaf am 1.30 yp. Mynediad yn £8 i oedolion a phlant dan 16 am ddim. Gostyngiadau grŵp ar gael. Mi fydd y cyfarfod poblogaidd yma yn cynnig ffeinal £1000, Free For All, ras dan gyfrwy, ras aelodau Clwb Cardigan Bay, ras i yrwyr dros 50 ayyb. Diwrnod cau dydd Sul 28 Gorffennaf.

Yn ogystal ar holl rasys, mi fydd y clwb yn cynnal cystadleuaeth y wisg orau. Gwobrau i'r ddynes yn y wisg orau, plentyn yn y wisg orau ac i'r het orau. Mae'r gystadleuaeth yn rhad ac am ddim ac yn agored i bawb. Cyfle i bawb ymuno yn yr hwyl a sbri. Gwobrau yn cynnwys £100 mewn arian parod, a thalebau i KJs Hair Salon, Llanon a The Little Shop of Horrors yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth.

Cofiwch hefyd os ydych yn teithio i'r rasys mae bosib dal y trê'n o'r Amwythig, Trallwng a'r Drennewydd. Mi fydd yna fws yn mynd o'r orsaf i'r rasys ond mae rhaid bwcio o flaen llaw. Ffoniwch 01974 821511 i fwcio'ch sedd. Manylion llawn ac amserlen ar gael ar dudalen newyddion ar ein gwefan.

Ers ennill ffeinal Tanycastell yn 2012, mae Meadowbranch Josh wedi mynd o nerth i nerth, sy'n dangos bod ceffylau o safon yn cystadlu yn rasys Tanycastell a bod yr enillwyr yn mynd ymlaen i'r uchelfannau wrth ennill Tanycastell. Edrychwn 'mlaen i'ch gweld yn Tanycastell.



Fe gynigodd Cwpan Cymru 2013 rhywbeth gwahanol i ni eleni, sef nid un ond dau enillydd. Mi roedd y canlyniad yn hir yn dod, ond wedi methu rhannu nhw - ras datglwm rhwng Hilltop West Art (Southwest Art/Wrekin Roberta) a Luck Matters (Sable Matters/Lyons Luck).

Hilltop West Art

Fe brynodd Gareth Price Hilltop West Art am £1000 fel ebol blwydd yn arwerthiant Lanelwedd 2007. Allan o'r gasg Wrekin Roberta sydd eisoes wedi geni nifer o ennillwyr megys Michelle's Jackpot, Hilltop Tuck ac I am The Man, roedd Gareth yn teimlo fod y teulu yn gryf ac roedd yna dipyn o obaith fydde Hilltop West Art yn medru ennill rasys hefyd.

Wedi ei dorri fewn fel ebol blwydd fe gafodd ei droi allan i ddatblygu ac aeddfedi hyd yn 4 oed. O'r cychwyn mi roedd yn geffyl rhwydd i neud ond roedd rhaid cofio rhoi'r 'ear plugs' mewn i'w hyfforddi. Er waethaf ei gymeriad 'cwerci' mae pob amser yn rhoi o'i orau ar y trac.

Cafodd 4 ras fel ebol 4 oed gan ennill tri o'r rasys hynny, yn Tanycastell, Boughrood a Thregaron - dechrau gloyw i'w yrfa. Yn 5 oed fe gafodd 8 ras, ac unwaith eto yn ennill 5 ohonynt. Mi roedd y ceffyl yma yn datblygu i fod yn geffyl o ansawdd da. Enillodd 2 ras arall yn 2012, ond fel sawl ceffyl arall fe wnaeth y tywydd a chyfarfodydd wedi eu canslo ymyrrid ar dymor Hilltop West Art.

Fe ddaeth Hilltop West Art allan i rasio yng nghynt nag arfer yn 2013 gan ei fod yn cario bach fwy o bwysau fel canlyniad i'r diffyg rasio yn 2012. Yn rasys

Ceredigion mi fu digon anffodus i fod yn yr un rhagras a Best Of The Fleet, y ceffyl aeth mlaen i ennill y ffeinal. Ond perfformiad da ganddo i orffen yn drydydd yn y rhagras. Cwpan Cymru oedd ei darged nesa.

Fel hyfforddwr mae Gareth yn dethol rasys i'w geffylau, rasys mae e'n ystyried yn addas a ble mae ganddynt siawns o ennill. Mae'n teimlo bod y safon yn codi yn gyflym ac mae hoffi rhoi'r hyder o ennill i bob ceffyl. Ond wrth i'r ceffyl codi drwy'r graddau mae hyn yn mynd mwy anodd. Roedd ras Cwpan Cymru i weld yn ras ddelfrydol i'r ceffyl, roedd yr amser yn iawn ac mi fyddai ffeinal 'free for all' o'i blaid.

Roedd Gareth heb sylweddoli y byddai'r rhag rasys yn cael eu rhedeg fel handicap, felly fyddai rhaid i West Art rhoi tipyn o gychwyn i geffylau oedd yn medru mynd tua 2 funud. Cymhwysu i'r ffeinal yn unig fyddai blaenoriaeth Gareth, ac mi wnaeth yn berffaith wrth orffen yn 4ydd yn ei rhag ras. Wedi cymhwysu i'r ffeinal bu Gareth yn ffodus wedyn i dynnu safle cychwyn ar y gât, wrth fynd i'r ffeinal roedd Gareth yn ddigon hyderus. Roedd yn gwybod bod y gallu gan ei geffyl i ddod allan o'r gât yn gyflym, mi fyddai sicrhau'r blaen erbyn y tro cyntaf yn golygu 'daliwch chi os fedrwch chi'. Ac fel yna aeth y ras, ac er nac aeth Luck Matters heibio iddo fe ymdrechodd yn ddewr i fod lan wrth ei ochr a'r ddau yn croesi'r llinell gyda'i gilydd - a neb yn siŵr pwy oedd wedi ennill.

Er na enillodd Hilltop West Art yn llwyr ma' Gareth yn falch iawn ohono. Ond unwaith y flwyddyn maent yn cystadlu am Gwpan Cymru, ac yn y gorffennol mae'r

buddugwyr wedi mynd ymlaen i ennill amryw o rasys arall. Roedd agwedd Gareth tuag at y ras datglwm yn iachus “ Mae 2 enillydd yn golygu 2 deulu hapus, roedd ei gaseg yn llawn haeddiannol o’i llwyddiant hefyd.”

Gareth yw’r unig yrrwr i ennill Cwpan Cymru 2 waith. Fe enillodd y ras yn 2011 wrth yrru ceffyl Tudor Jones, Grannell Shane. Roedd ymateb Tudor i ennill Cwpan Cymru yn talfyrru'r gamp yn y DU. Roedd gyrru Shane i fuddugoliaeth yn golygu llawer i Gareth, yr un mor felys ag ennill efo ceffyl ei hunan.

Luck Matters

Eleni yw’r flwyddyn gyntaf rydym wedi gweld Luck Matters yn rasio dan reolau BHRC. Mae’r gaseg 7 oed, sydd wedi ei magu’n dda wedi rasio yn helaeth gyda chymdeithas Cymru a’r Gororau ers 2010. Yn ystod yr amser yna, mi roedd yn aml yn ennill safle ond yn gwneud camgymeriadau yn ei rasys ac felly yn methu cyflawni ei llawn potensial.

Eleni fe benderfynodd ei pherchennog Wayne Roach i roi’r gaseg yn stabl Rhys Evans a triail ei lwc gyda’r BHRC. Fel perchennog roedd Wayne yn meddwl llawer o’i gaseg ac am iddi gael bob cyfle i dangos ei dawn. Roedd Rhys yn fwy na hapus i’w derbyn i’w stabl, gan ei fod wedi gwyllo amryw o’i rasys blaenorol ac wedi nodi ei dawn.

O’r cychwyn roedd Rhys yn hyderus bod y gallu gan y gaseg ac roedd yn ddigon ffyddiog i fynd a hi i Appleby. Yn anffodus cafodd safle cychwyn gwael a gorfod iddi rasio yn llydan drwy gydol y ras a method greu unrhyw argraff ar ddiwedd y ras. Er hynny roedd Rhys yn hapus a’i pherfformiad. Cafodd 2 ras yn Allensmore a Dyffryn Aman, gorffen yn ail yn y ddwy ras - jyst cael ei churo ar y llinell. Roedd pethau’n argoeli’n dda go gyfer a rasys Ceredigion ond ni aeth pethau yn ôl y disgwyl a gorffen yn ddi-safle y gwnaeth.

Ond allan o bob negatif daw yna bositif, a’r peth gorau nawr oedd ei gradd yn dda go gyfer a Chwpan Cymru. Roedd Rhys yn hyderus fod gan y gaseg y gallu i fynd dan ddwy funud, ac er bod yna geffylau da iawn y cychwyn y tu ôl iddo, roedd yn gwybod y byddai’n rhaid iddynt fynd dan 2 funud i’w churo. Wrth i Luck Matters adael y gât yn y rhagras, fe fedrodd Rhys reoli’r ras o’r blaen a thywys Lucky Matters i fuddugoliaeth hawdd iawn yn 1.59.2, amser gorau’r

gaseg erioed. Ond nawr gan taw Free For All oedd y ffeinal, roedd Rhys yn hollol ymwybodol taw Hilltop West Art oedd y peryg mawr, fe oedd yr un i guro. Ond fe ymladdodd ei gaseg yn ddwfn a ddaeth o’r tro olaf yn gryf ac yn gadarn, Rhys a Luck Matters oedd yn gorffen orau ac wrth i’r llinell agosâi roedd Rhys yn meddwl falle bod y momentwm efo i fynd heibio ond mi ddaeth y llinell gam yn rhy gynnar i Luck Matters, a’r ddau yn croesi’r llinell gyda’i gilydd.

Roedd teulu’r Roach ar ben eu digon. Roeddent wedi ymroi a’r gaseg am 3 mlynedd a nawr roeddent wedi cael eu gwobr ac ennill Cwpan Cymru. Yn anffodus roedd Wayne wedi gorfod dychwelyd i Affrica pedwar diwrnod yng nghynt, ond roedd ei bartner Michelle wedi bod yn cadw mewn cysylltiad ag ef drwy gydol y nos ar y ffon symudol. Roedd y fuddugoliaeth yn golygu llawer i deulu’r Roach, mi roedd hefyd yn golygu llawer i’w hyfforddwr a gyrrwr Rhys Evans. Roedd Rhys wedi bod yn ceisio ennill Cwpan Cymru ers sawl blwyddyn ac mi roedd ennill Cwpan Cymru 2013 yn un o uchelgeisiau'r tymor iddo.

Beth nesa i’r ddau enillydd yma? Mi fydd Hilltop West Art yn cynnal marc handicap go handi ac mae’n siwr fod ‘na fuddugoliaeth mewn ras fawr yn ei ddisgwyl. Mi fydd Luck Matters yn mynd i rasys Tanycastell a Wolverhampton gyda’r gobaith o gael hi lan i Radd 5 erbyn rasys Tregaron. Yn sicr nid ydynt wedi gweld diwedd y ddau enillydd yma, heb os mae yna fwy i ddod.



Rasys Wolverhampton ym Mharc Dunstall

Nos Wener 16 Awst 2013

Gan Jackie McGuire



Yn dilyn dau haf gwlyb iawn diwethaf pan orfodwyd i nifer iawn o'r rasys porfa cael eu gohirio, mae ym unigolion sydd wedi bod yn ystyried lleoliadau gall cael eu defnyddio go gyfer a rasio harnais os yw'r patrwm tywydd anffafriol yma barhau. Un o'r bobl wnaeth edrych mewn i leoliadau amgen oedd Shane Fletcher. Fe aeth ati i drefnu cyfarfod gyda rheolwyr trac rasio Wolverhampton ym Mharc Dunstall yn ystod mis Awst 2012. Roedd Wolverhampton eisoes wedi cynnal cyfres rasys William Hill, ac felly roeddent yn hollol ymwybodol o rasio harnais ac yn barod i wrando ar gynnis Shane o gynnal mwy o rasys harnais ar y cwrs aml-dywydd yma. Yn anffodus, mae'r trac harnais gwreiddiol cafodd ei adeiladu ym Mharc Dunstall eisoes wedi ei ddymchwel. Ond roedd llwyddiant cyfres rasys William Hill yn dyst i'r ffaith fod y ceffylau yn medru ymdopi ac trac aml-dywydd, er na fyddai'r amseru mor gyflym â thraciau fel Tir Prins ag ati. Cafwyd ymateb ffafriol i'r cyfarfod ond nid oedd Shane yn hollol sicr beth oedd y cam nesaf. Wedi trafod gydag Alan Haythornthwaite yn Nyffryn Aman, fe ddaeth Shane i ofyn i mi rhoi help llaw iddo i drefnu cyfarfod rasys yn Wolverhampton. Er fy mhechodau fy gytunais i helpu, dyna oedd y darn haws.

Felly roedd rhaid mynd nôl i Wolverhampton a thrafod ein hopsiynau. Yn wreiddiol roedd Shane wedi ystyried cynnal rasys harnais ar gynffon cyfarfod rasys Thoroughbred, ond fe wrthododd y BHA ystyried unrhyw beth o'r fath ar sail y risg o ledaeni haint a firws rhwng ceffylau Standardbred a thoroughbred, unplygrwydd ac unrhyw beth arall oedd yn dod i'w meddwl. Heb os, yn eu meddwl nhw rhywbeth ail-ddosbarth oedd rasio harnais, a rhywbeth na ddylid ei annog. Ond mae 'na fwy nag un ffordd i gael Wil i'w wely, ac roedd rhaid dyfalbarhau ac fe wnaethom awgrymu diwrnod rasys yn unig swydd i rasio harnais. Ar ôl peth amser, fe gytunodd rheolwyr Wolverhampton rhoi'r caniatâd i'r cyfarfod yma ar yr

amod fod yna amser penodedig rhwng rasys Thoroughbred ar rasys harnais. Er iddynt gytuno, roedd hi yn rhy hŵr i drefnu cyfarfod yn 2012, felly roedd rhaid edrych am ddyddiad addas yn 2013. Cafwyd amcan brys am gostau i logi'r trac, ar adeiladau, offer a swyddogion fyddai angen. Roedd y ffigyrau braidd yn frawychus, ond roedd Shane yn gadarn ac yn benderfynol i roi cynnig arni. Cafodd y trefniadau eu cymhlethu wrth i Barc Dunstall gael ei gymryd drosto gan gwmni Arena Leisure. Ond eto gyda dyfalbarhad a chyfathrebu cyson, nodwyd 4 dyddiad phosib go gyfer a'r rasys harnais.

Erbyn hyn roedd hi'n Fis Mawrth 2013, ac roedd 2 o'r dyddiadau posib ym Mis Mai - felly yn ymarferol ni fyddai digon o amser i drefnu'r cyfarfod ac roedd 'na bosibilrwydd na fyddai digon o geffylau yn barod i rasio wedi'r gaeaf hir a gwlyb. Felly lawr i 2 ddiwrnod, ac mi roedd un o rain yn gwrthdaro efo cyfarfod mawr arall - felly gyda mawr o ddewis roedd rhaid anelu am Nos Wener 16 Awst. Gan nad oedd yna gyfarfod yn Efrog y penwythnos yna, a gyda 2 ddiwrnod rhwng y dyddiad a rasys mawr Boughrood, fe benderfynwyd roedd cynnig arni. Cadarnhau y dyddiad gyda Wolverhampton ac ar yr un pryd sicrhau'r stablau yn y stablau hyfforddi os oedd unrhyw un am stablo dros nos.

Medraf eich sicrhau ei bod hi llawer mwy anodd trefnu cyfarfod ar gwrs rasio nad chae porfa, fel gall Stella Havard dystio wrth iddi hithau drefnu cyfarfod ar drac rasys Henffordd yn y gorffennol. Rwy'n derbyn nad oes rhaid paratoi'r trac ac mae'r cyfleusterau arlwy, toiledau ayyb i gyd yna yn barod. Ond mae'n rhaid sicrhau bob manylder yn ymwneud a threfniadau meddygol, yswiriant, diogelwch, asesiad risg, bwciod ayyb a fod popeth yn gorfod cydlyn efo telerau Parc Dunstall, sydd yng ngo llym. Nid yw wedi bod yn siwrne hawdd a gyda'r rheolwr David Roberts yn cael ei gymryd yn wael, roedd 'na adegau go ingol iawn ond mi rydym wedi camu ymlaen ac erbyn hyn mae'r rasys yn agos iawn.

Oherwydd y costau anferthol o logi'r cwrs, rydym wedi bod yn chwilota am noddwyr i gynorthwyo. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai sydd wedi dod ymlaen i gynnis nodd i ac i gymorthwyo. Mi fydd ein noddwyr, llawer i un nad ydynt erioed wedi gweld rasio harnais yn medru mwynhau'r lletygarwch ar y

llawr cyntaf, yn ogystal â thocynnau mynediad gyda'r gobaith y byddwn nhw yn mwynhau noswaith wych o rasio. Mi fydd y sylwebydd o fri Darren Owen wrth y meic, dyn sydd bob amser yn rhoi'r cyffro mewn i'r achlysur. Diolch yn fawr iawn i'r bobl sy'n gweithio yn dawel yn y cefndir, pobl sydd am fynd y filltir ychwanegol yn trefnu bysiau, hysbysebu ac wedi sicrhau noddwyr ychwanegol. Mi fydd y papur lleol y 'Shropshire Star' yn cyhoeddi gwybodaeth am y rasys yn cynnwys rhestr o'r ceffylau fydd yn rasio. Mae angen i ni gael gymaint â phosib o bobl drwy'r gât, gan fod nifer da yn creu awyrgylch ffafriol. Mi fydd yna adloniant ychwanegol ar ôl y rasys, felly mae'n argoeli'n noswaith dda iawn. Gair o rybudd i rai fydd yn teithio i Barc Dunstall ar y A5, gwnech yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser gan fod gŵyl fawr y V-Festival yn digwydd ym Mharc Weston yn ystod yr un penwythnos.

Yn anffodus, mi fydd yna uchafswm i'r nifer o rasys y medrwn gynnig ac felly ymddiheurwn na fydd 'na unrhyw rasys i geffylau Morwynol a Nofis. Ond mi fydd 'na gyfle i'r croeslamwyr gan fod yna dwf yn nifer o groeslamwyr sydd ar gael ar hyn o bryd. Os yw'r niferoedd yn caniatáu, mi fydd y croeslamwyr yn cael eu rhannu i adran Aur ac adran Arian. Prif ras y noswaith fydd y Free For All i'r ceffylau o'r radd uchaf, gyda gwobr o £2000

Mi fydd gweddill y rasys wedi graddio ac yr enwau cyntaf i mewn bydd yn cael rhedeg. Mae Kirsty a Sarah yn swyddfa'r BHRC wedi cytuno i dderbyn yr enwau, ac mi fydd hyn yn gymorth mawr. Mae hefyd yn gyfle i arbrofi'r system bas-data sydd wedi ei gynllunio i dderbyn enwau ceffylau sydd am rasio. Yn eironig mae'r rhagolygon tywydd yn rhagweld haf bendigedig, ond pa mor hir fydd e'n parhau? A'r cwestiwn mwy yw sut dywydd fydd yna flwyddyn nesa, a fyddwn ni yn medru sicrhau ein bod yn medru rasio ar y borfa. Mawr obeithiwn y bydd y cyfarfod yma ym Mharc Dunstall yn llwyddiant a'r gobaith yw y byddwn yn medru ei gynnal eto yn 2014. Ond wrth gwrs mi fydd hynny yn ddibynnol ar llwyddiant y cyfarfod hwn a sut mae'r coffrau yn edrych ar ddiwedd y dydd.

Os ydych am aros yn y gwesty, cysylltwch â Jolene yng Ngwesty Parc Dunstall 01902 390003. Mae ystafelloedd ar gael am £65 (wedi selio ar 2 berson yn rhannu) am wely a brecwast neu £52 am ystafell yn unig. Manylion llawn am y cyfarfod ar wefan BHRC.

Mae Ceredrotian yn dymuno bob llwyddiant i gyfarfod Wolverhampton ac edrychwn 'mlaen i weld chi gyd ym Mharc Dunstall Nos Wener 16 Awst.

Erbyn hyn mae'r Crochan Aur yn un o'r rasys lle mae'r genedl gyfan yn disgwyl amdano. Mae pobl yn breuddwydio am berchen ar geffyl fyddai digon da i redeg yn y Crochan Aur. Mae nifer o geffylau wedi cael eu mewnfario o ogledd America gyda'r prif nod o ennill y Crochan Aur. Ond eleni mi ddaeth yr ennillydd o Geredigion, wedi ei fagu a'i hyfforddi yn y sir.

Mae'n deg dweud bod Merry Go Round (Cover Up / Merry Kerry) yn un o'r cesig magu gorau yn y DU ac Iwerddon ac wedi bod yn ased mawr i stabl yr Evans. Mae wedi magu un ennillydd ar ol y llall wrth nifer o wahanol feirch. Y gorau ohonynt oedd un o rai wnaeth Huw ei werthu, Scoot Around. Wedi ei ymddeol nawr, ond mi gafodd y pencampwr a chyn-ennillydd y Crochan Aur dwywaith yma ei werthu fel ebol 4 oed. Ychydig feddylodd y byddai Scoot yn cyrraedd y fath uchelfannau a gwnaeth. Nid yw ceffylau o safon Scoot Around yn dod o gwmpas yn aml, ond mi roedd Huw yn benderfynol i dreial ei orau i gael un arall yn debyg iddo. Yn anffodus roedd tad Scoot Around sef Master Scoot wedi marw, felly roedd rhaid chwilio march tebyg a phwy well na Sable Matters. Yn fab i Matts Scooter ac yn rhannu'r un tad-cu a Master Scoot sef Direct Scooter. Mae'n debyg bod y 'match' yn un llwyddiannus, ac mi ddechreuodd Fool Around greu argraff yn enwedig ar ol ennill Clasur Cymru yn 2012.

Dechreuodd 2013 yn weddol dawel, enillodd rhagras yn Appleby ond tynnu lan yn yr amodau erchyll yn y ffeinal, wedyn rhedeg rhywfaint yn 'fflat' yng Nghlasur Ewrop. Ond fe newyddodd pethau wedyn, yn ol i Efrog yr wythnos ganlynol ag ennill y Free For All

Ceredigion, ond yn dangos fod ganddo'r gallu i gystadlu gyda cheffylau'r Crochan Aur. Cafodd rhagarweiniad perffaith yn Nyffryn Aman yr wythnos cyn y Crochan Aur. Y tro hyn yn nwylo ei berchennog Huw Evans ac ennill mewn amser o 1.56.0, amser gorau ei yrfa. A thrwy hynny, yn curo record ei frawd Scoot Around, a chreu record newydd am yr amser cyflyma ar drac hanner milltir i geffyl wedi ei fagu yn y DU. Erbyn nawr roedd Fool Around yn barod am y Crochan Aur.

Ar 20 Gorffennaf 2013, fe heidiodd y gymuned trotian yn eu miloedd i Dir Prins am beth oedd yn argoeli i fod yn noswaith arbennig iawn. Roedd Fool Around yn yr ail rag ras gyda'r ffefryn mawr Gwyddelig Forafewdollarsmore. Er rhedeg yn dda fe wywodd tuag at y llinell derfyn a'r Gwyddel aeth a hi. Ond oedd dim cywilydd o orffen yn ail i un o geffylau gorau'r wlad ac y beth pwysicaf holl oedd bod Fool Around yn y ffeinal.

Ac fe gafodd y Cymry chwaneg o lwc i'r ffeinal, Fool Around yn tynnu rhif un a cheffyl Trefor Morgans Meadowbranch Josh yn tynnu rhif 2. Yn ddigon doeth nid oedd Rhys am fynychu unrhyw frwydr gynnar efo Meadowbranch Josh, a gan fod Josh yn hoff o arwain fe aeth i'r blaen wedi'r tro cyntaf. Roedd Rhys yn ymwybodol fod Josh wedi rhedeg ras a hanner i ennill ei rag ras ond roedd Rhys yn poeni efallai na fyddai gan yr egni i aros yn y blaen drwy gydol y ffeinal. Felly er yn hapus i'w ganlyn am yr hanner milltir gyntaf, wrth ddod am y gloch fe welodd Rhys gyfle i ddod allan a chanlyn Meadowbranch DJ, ffefryn arall ac ennillydd diweddar Glasur Ewrop. Er yn rhedeg yn llydan roedd Fool Around yn eistedd yn y man



Newyddion Sydyn

delfrydol, roedd angen amynedd ond wedi dod o gwmpas y tro olaf fe sylwodd Rhys fod DJ yn gwegian, fe ddaeth y cyfle a bant ag ef ... gan gamu yn fras ac yn hyderus i'r fuddugoliaeth. O'r diwedd roedd Y Crochan Aur wedi cyrraedd dwylo'r Cymru!

Wrth edrych ar ffeinal Y Crochan Aur eto, mae yna ddigon o le i ddweud y gall y ceffyl yma fynd ymlaen i gyflawni'r hyn wnaeth ei frawd Scoot Around, sef ennill y Crochan Aur dwywaith. Fe ddatblygodd Scoot Around gydag oedran ac mae'n ddigon phosib y gwnaeth Fool Around yr un peth. Yn ol ei hyfforddwr Rhys Evans, mi fydd gweddiill tymor Fool Around wedi anelu tuag at y 'Free For Alls', Mi fydd yn mynd i Wolverhampton ac mae Rhys yn weddol hyderus fydd Fool Around yn medru ymdopi a'r trac aml-dywydd. Ac wedyn yn naturiol fydd Huw a Rhys am fynd ag ef i Dregaron, i'w drac lleol a chystadlu yn erbyn y goreuon yn 'Y Filtir Drydanol'. Yn sicr ma' llwyddiant yn magu llwyddant, a gyda buddugoliaeth y Crochan Aur ganddynt, pwy a gwir beth sydd nesa.

Mae unrhyw un sy'n nabod Rhys yn gwybod nad yw e'n aml iawn ei fod yn brwydro am rywbeth i ddweud ond hyd yn oed diwrnod ar ol ennill y Crochan Aur ag yntau nol ar y trac yn Allensmore, roedd e'n methu cweit dygymod ar hyn oedd e wedi ei gyflawni - ennill un o rasys mawr y calendr ac mae fe yw'r gyrrwr ifancaf i wneud hynny. Ond mi roedd rhywbeth yn taro nodyn ac mi roedd e'n cofio rhywbeth wnaeth Alexis Laidler weud ar ol ennill ras fawr "Rydych yn gadael y rasys yn gwybod bod y ceffyl gorau yn y wlad yn mynd adre ar eich lori chi"

Yn naturiol mi roedd Huw Evans ar ben ei ddigon efo'r fuddugoliaeth. Efallai ei fod wedi gadael i Scoot Around fynd drwy'r rhwyd ond mae hyn yn gwneud lan amdano. Ymdrech teulu cyfan oedd hwn, o genhedlu Fool Around yn Nhalgrwn, i'w dorri fewn a hyfforddi ym Mhorth Y Ffynnon. Nid yw Fool Around wedi bod allan o'u gofal, ac mae hyn yn gwneud y fuddugoliaeth yn fwy arbennig fyth. O'r cychwyn mi roedd gan Huw obeithion mawr i'w geffyl ac mae gweld ei fab yn mynd ar geffyl i'r brig yn creu atgof byth cofiadwy.

- Peidiwch anghofio Rasys Tanycastell 4 Awst. Dyddiad cau Dydd Sul 28 Gorffennaf
- Mae rhestr y ceffylau sy'n gymwys i rasys y Ddraig I'w gweld ar dudalen we <http://ceredrotian.com/en/clubs/tregaron-trotting-club/the-little-welsh-dragon/>
- Cofiwch fod rasys Tanycastell yn cyfrif tuag at Bencampwriaethau Ceredrotian, llynedd gwelsom Jamie Davies yn codi i frig tabl y gyrrwyr, a gall wneud yr un peth eleni?
- Mi fydd Mis Awst yn fis mawr i'r gystadleuaeth 10-i-ddilyn Wynnstay, gyda phwyntiau bonws i'w ennill yn Tanycastell a Tregaron. Mae'r tabl o'r 10 uchaf i weld ar y wefan.
- Pob lwc i ffyddloniaid Wales & West sydd wedi gwneud y siwrne hir lan I Musselburgh y penwythnos yma.
- Mae dal ambell i le ar ôl go gyfer a thrip I Kentucky ym mis Medi. Os oes diddordeb gennych gysylltwch â Gwenan Thomas (07974363545) mor gynted â phosib.
- Dyddiad cau Gŵyl Clwb Trotian Tregaron yw 14 Awst. Am amserlen ewch i wefan Ceredrotian a tudalen Tregaron

